# Yr Wythnos Weddi am Undeb Cristnogol 2019

# CYFIAWNDER YN UNIG




**Only Justice / Week of Prayer for Christian Unity 2019**

**18-25 Ionawr**

**www.ctbi.org.uk/weekofprayer**

churches together IN BRITAIN AND IRELAND



Eglwys Gatholig Sant Antonius Padova, Dwyrain Java

Rwyf yn falch o gymeradwyo'r deunyddiau ar gyfer yr Wythnos Weddi am Undeb Cristnogol 2019.

Y llynedd, cawsom ein gwahodd i fyfyrio ar effaith y Fasnach Gaethweision ar draws yr Iwerydd ar gymdeithas yn y Caribî ac ar undod a thystiolaeth Gristnogol, effaith sy'n parhau hyd heddiw. Eleni, cawn ein hatgoffa eto ein bod yn offrymu ein gweddïau am undod yng nghanol anghyfiawnder a'n hatgoffa hefyd o'r amrywiol gysylltiadau sydd yna rhwng diffyg undod ymhlith Cristnogion a'r rhaniadau yn ein byd yn gyffredinol.

Mae Eglwysi Indonesia, sydd wedi cyfrannu'r deunyddiau, yn llefaru yng nghyd-destun amrywiaeth grefyddol ac ethnig, lle mae pwyslais cryf ar yr angen am undod a ganfyddir o fewn amrywiaeth, undod ar sail cydsefyll a chydweithredu. Maent hefyd yn pwysleisio materion yn ymwneud ag anghyfiawnder economaidd a'r modd mae amrywiaeth grefyddol yn gorfod wynebu heriau radicaleiddio.

Mae hyn yn rhoi cyfle i ni fyfyrio ynghylch y cyd-destun rydym ninnau'n gweddïo am undod Cristnogol ynddo. Sut mae rhaniadau o fewn ein cymdeithas ninnau yn hyrwyddo rhaniadau yn yr Eglwys? Sut mae anghyfiawnder yng nghyd-destun Prydain ac yng nghyd-destun Iwerddon yn herio ein hymdrechion i gyd-fyw fel Cristnogion?

Fel mewn blynyddoedd blaenorol, mae Grŵp Awduron Eglwysi Ynghyd ym Mhrydain ac Iwerddon wedi cynnig myfyrdodau pellach a chwestiynau a gobeithiaf y bydd y deunydd ychwanegol hwnnw'n ysgogi gweddi a myfyrio dyfnach, a hynny ynghyd ag awgrymiadau ar gyfer gweithredu pellach gan Gymorth Cristnogol.

***Bob Fyffe, Ysgrifennydd Cyffredinol, Eglwysi Ynghyd ym Mhrydain ac Iwerddon***

# Welcome



St Antonius Padova Catholic Church, East Java

I am pleased to commend the materials for the Week of Prayer for Christian Unity 2019.

Last year we were invited to reflect upon the continuing impact of the Transatlantic Slave Trade upon Caribbean society and upon Christian unity and witness. This year we are reminded again that our prayer for unity is offered up amidst injustice and that Christian disunity is in so many ways related to the divisions in our world.

The Churches of Indonesia, from whom the material comes, speak out of a context of ethnic and religious diversity, and where there is a strong emphasis upon the need for a unity that is found in diversity, and one built on solidarity and collaboration. Yet they also highlight issues of economic injustice and how religious pluralism can face challenges in the face of radicalization.

This gives us an opportunity to reflect upon the context in which we pray for Christian unity. How do divisions in our society contribute to divisions in the Church? How does injustice in our British and Irish contexts create challenges in pursuit of our shared life together?

As in previous years the CTBI Writers Group has offered additional reflections and questions that I hope will enable a deepening prayer and reflection, along with suggestions for further action from Christian Aid.

***Bob Fyffe, General Secretary, Churches Together in Britain and Ireland***

# Cyflwyniad i'r thema ar gyfer eleni

Rydym yn gweddïo am undod Cristnogol yng nghyd-destun byd lle mae llygredd, trachwant ac anghyfiawnder yn esgor ar anghydraddoldeb a rhaniadau. Rydym ni ein hunain yn aml yn cyfrannu at anghyfiawnder, ac eto fe'n gelwir gyda'n gilydd i gynnig tystiolaeth unol dros gyfiawnder ac i fod yn sianelau gras adnewyddol Crist ar gyfer byd toredig.

Lluniwyd deunyddiau Wythnos Weddi am Undeb Cristnogol 2019 gan Gristnogion o Indonesia, y wlad fwyaf yn Ne-ddwyrain Asia, gyda mwy na 17,000 o ynysoedd, 1,340 o wahanol grwpiau ethnig a thros 740 o ieithoedd lleol. Unir y wlad yn ei holl amrywiaeth gan un iaith genedlaethol, Bahasa Indonesia. Amcangyfrifir bod tuag 86% o'r boblogaeth o 260 miliwn yn Fwslimiaid ac Indonesia yw'r wlad sydd â'r boblogaeth Islamaidd fwyaf yn y byd. Mae tua 10% o bobl Indonesia'n Gristnogion o amrywiol draddodiadau, a cheir hefyd gymunedau o Fwdhyddion a Hindŵiaid. Sylfaenir y genedl ar bum egwyddor a elwir yn *Pancasila*, gyda'r arwyddair *Bhineka Tunggal Ika* (Undod mewn Amrywiaeth). Er eu holl amrywiaeth mewn ethnigrwydd, iaith a chrefydd, mae pobl Indonesia wedi byw yn unol ag egwyddor *gotong royong* sef byw mewn "cydsafiad a chydweithrediad". Golyga hynny rannu ym mhob agwedd ar fywyd, gan ystyried holl bobl Indonesia'n frodyr a chwiorydd.

Gall y cytgord hwnnw fod yn fregus ar adegau ac mae pethau penodol yn ei fygwth. Nid yw *gotong royong* yn arbennig o gydnaws â'r agwedd neo-ryddfrydol at faterion economaidd sydd wedi arwain at dwf economaidd Indonesia – gyda hynny daeth y llygredd sydd

Slymiau yn Jakarta



# Introduction to this year's theme

Our prayers for Christian unity are offered within a context of a world where corruption, greed and injustice bring about inequality and division. We ourselves are often complicit in injustice, and yet called together to form a united witness for justice and to be a means of Christ's healing grace for a fractured world.

The Week of Prayer for Christian Unity 2019 material has been prepared by Christians from Indonesia, which is the largest country in South East Asia, made up of more than 17,000 islands, 1,340 different ethnic groups and over 740 local languages. It is united in its plurality by one national language Bahasa Indonesia. With some 86% of its 260 million people estimated to be Muslim, Indonesia has the largest Islamic population of any country. About 10% of Indonesians are Christian from various traditions, as well as Buddhist and Hindu communities. The nation is founded on five principles called Pancasila, with the motto Bhineka Tunggal Ika (Unity in Diversity). Across the diversity of ethnicity, language and religion, Indonesians have lived by the principle of *gotong royong* which is to live in "solidarity and by collaboration". This means sharing in all aspects of life, regarding all Indonesians as brothers and sisters.

This harmony can be fragile at times and is threatened in particular ways. *Gotong royong* sits ill at ease with the neo-liberal approach to economics that has led to Indonesia's economic growth - with that has come corruption that

Slums in Jakarta





Tirweddau prydferth yn cyferbynnu ag annibendod y dinasoedd

wedi heintio gwleidyddiaeth a busnes, yn aml gydag effeithiau dinistriol ar yr amgylchedd. Ar yr un pryd mae'r rhai sydd i fod i hyrwyddo cyfiawnder ac i amddiffyn y gwan yn esgeuluso eu cyfrifoldeb. O ganlyniad, mae gwlad sy'n gyfoethog ei hadnoddau yn gorfod ysgwyddo baich y ffaith bod llawer o bobl yn byw mewn tlodi. Mae adlais o hynny mewn dihareb draddodiadol yn Indonesia, "Bydd llygoden yn marw o newyn mewn ysgubor sy'n llawn o reis". Cysylltir grwpiau ethnig a chrefyddol penodol yn aml â chyfoeth mewn ffyrdd sydd wedi hybu tensiynau. O ganlyniad, mae'r radicaleiddio sy'n gosod un gymuned yn erbyn y llall wedi cynyddu ac yn cael ei waethygu gan gamddefnyddio cyfryngau cymdeithasol i bardduo cymunedau penodol.

Bydd ymateb Cristnogol ar y cyd i sefyllfa o'r fath yn cydnabod ein heuogrwydd ninnau ond ar yr un pryd yn cymryd gweddi Iesu "ar iddynt oll fod yn un" o ddifrif, ac yn ein galluogi i frwydro yn erbyn anghyfiawnder.

Wrth ymateb i'r pryderon hynny, canfu Cristnogion Indonesia fod geiriau Deuteronomium, "Cyfiawnder yn unig a ddilyni ..." (gweler Deuteronomium 16:18-20), yn rymus o berthnasol i'w sefyllfa a'u hanghenion. Cyn i bobl Dduw fynd i mewn i Wlad yr Addewid maent yn adnewyddu eu hymrwymiad i'r Cyfamod. Daw'r geiriau hyn mewn pennod sydd â'r gwyliau y mae pobl y Cyfamod i'w dathlu yn thema ganolog iddi. Ar ôl pob gŵyl, gorchmynnir y bobl: "Byddi'n llawenhau ar dy ŵyl, ti, dy fab a'th ferch, dy gaethwas a'th gaethferch, y Lefiad a'r dieithryn, a'r amddifad a'r weddw sydd yn dy drefi" (Deuteronomium 16:14, gweler hefyd 16:11).



Beautiful landscapes contrast with urban sprawl

infects politics and business, often with devastating effects on the environment. Meanwhile those who are supposed to promote justice and protect the weak fail to do so. As a consequence, a country rich in resources bears the burden of many people living in poverty. This is reflected in a traditional Indonesian saying, "A mouse dies of hunger in a barn full of rice". Particular ethnic and religious groups are often associated with wealth in ways that have fed tensions. As a result the radicalization that pits one community against another has grown and is exacerbated by the misuse of social media to demonize particular communities.

A common Christian response to such a reality whilst acknowledging our own complicity, heeds Jesus's prayer "that they all may be one", and enables us to combat injustice.

Moved by these concerns the Christians of Indonesia found that the words of Deuteronomy, "Justice, and only justice, you shall pursue..." (see Deut. 16:18-20) spoke powerfully to their situation and needs. Before the people of God enter the promised land they renew their commitment to the Covenant. The passage comes in a chapter whose central theme is the festivities to be celebrated by the Covenant people. After each festival the people are instructed, "Rejoice during your festival, you and your sons and your daughters, your male and female slaves, as well as the Levites, the strangers, the orphans, and the widows resident in your towns" (Deut. 16:14, see also 16:11).

Mae Cristnogion Indonesia yn ceisio adfer yr un ysbryd o ddathlu cynhwysol ledled eu cymunedau, fel y bu gynt. Mae hyn oll wedi'i wreiddio mewn cyfiawnder, a dyna pam y ceir yma hefyd adnod ynghylch penodi barnwyr.

Mae Iesu'n cadarnhau hynny pan mae'n dweud bod Teyrnas Nefoedd yn eiddo i'r rhai sy'n newynu a sychedu am gyfiawnder a'r rhai a erlidir o achos cyfiawnder (gweler Mathew 5:6, 10), ac mae'r Eglwys wedi ei galw i fod yn rhagflas o'r Deyrnas honno. Fodd bynnag, oherwydd eu diffyg undod, mae Cristnogion yn methu â bod yn arwydd o gariad Duw ar gyfer ei bobl. Yn union fel y bu i anghyfiawnder ddwysáu'r rhaniadau sydd wedi rhwygo cymdeithas yn Indonesia, felly hefyd mae anghyfiawnder wedi hyrwyddo'r rhaniadau sydd yn yr Eglwys. Mae Cristnogion Indonesia yn sôn am yr angen i edifarhau am yr anghyfiawnder sy'n achosi rhaniadau ond maent hefyd yn credu yng ngrym Crist i faddau ac iacháu. Maent yn sôn am eu hundod yng nghysgod croes Crist, gan alw am ei ras i roi terfyn ar anghyfiawnder ac am ei drugaredd yn sgil y pechod sydd wedi achosi ymrannu.

Surabaya, prifddinas Dwyrain Java



Indonesian Christians look to recover this same spirit of inclusive festivities across communities, which they previously enjoyed. This is rooted in justice, which is why we have a verse about appointing judges.

Jesus reaffirms this when he says that the Kingdom of Heaven belongs to those who hunger and thirst and are persecuted for justice (cf.Matt. 5:6, 10), and the Church is called to be a foretaste of this kingdom. However, in this disunity Christians fall short and fail to be a sign of God's love for his people. Just as injustice has widened the divisions that have riven Indonesian society, so injustice has also fed the divisions of the Church. Indonesian Christians speak of the need to repent of the injustice that causes division, but also believe in the power of Christ to forgive and heal. They speak of finding themselves united under the cross of Christ, calling both for his grace to end injustice and for his mercy for the sin which has caused division.

Surabaya, capital of East Java



# DIWRNOD 1

## Amos 5:22-25

## Luc 11:37-44



### Man Cychwyn

Mae Cristnogion yn Indonesia yn cydnabod bod yna bobl yn eu gwlad sy'n ceisio'n eiddgar i arfer eu ffydd eu hunain, ond sy'n gormesu pobl o grefyddau eraill. Ym mhroffwydoliaeth Amos, mae Duw yn gwrthod addoliad y rhai sy'n esgeuluso cyfiawnder. Yn Efengyl Luc, mae Iesu'n ein hatgoffa mai arwydd allanol gwir addoli Duw yw ymddwyn yn gyfiawn. Gall Cristnogion weithiau fod yn wir ymrwymedig i weddi ac addoliad, ond gan hidio llai am y tlodion a'r rhai a wthiwyd i gyrion cymdeithas. Pan fyddwn, fel Cristnogion, yn cydweithio ar faterion yn ymwneud â chyfiawnder, byddwn yn dod yn agosach at ein gilydd ac at Dduw.

### Myfyrdod

Wrth y bwrdd
eisteddwn,
platiau gweigion, heblaw am
    ychydig friwsion.

Mae pawb wedi'u llenwi eto,
yn fodlon,
am y tro beth bynnag.

Troi'r tapiau,
llenwi'n powlenni,
gan obeithio dileu pob staen.

Pistyllia'r dŵr
dros gwpan
a phlât,
gan olchi i ffwrdd
pob arwydd o gyswllt dynol,
fel pe na fu pryd o gwbl.

Yn ein sgwrsio gwâr
a'n siarad gochelgar,
twyllwn ein hunain
ein bod yn gwneud gwahaniaeth.

Ymgynullwn yn ffyddlon,
ond ai ond actio ydym,
yn disgwyl,
i eraill feiddio llefaru
tra golchwn ninnau'n dwylo?

# Llifed barn fel dyfroedd (Amos 5:24)



## Gweddi

Dduw pawb,
dangosaist i ni lwybr cyfiawnder.
Ti yw tad yr amddifad.
Ti yw cydymaith ffyddlon y weddw.
Ti yw cyfaill y dieithryn.
Ym mhob un o'r rhain,
boed i ni dy gyfarfod di
ac adnabod awel dy Ysbryd,
yn ein symud tuag at geisio cyfiawnder.
Ym mhopeth a wnawn,
boed i ni adnabod dy ras a'th drugaredd
a chynnig iachâd a chyfiawnder yn dy enw.

## Cwestiynau

- Sut fyddech chi'n disgrifio cyfiawnder?
- Ble rydych chi wedi gweld cyfiawnder ar waith?
- A allwn gael undod heb gyfiawnder?

## Ewch a Gwnewch (www.ctbi.org.uk/goanddo)

'Nid all elusengarwch sefyll yn lle cyfiawnder a wrthodir'.

Neilltuwch amser i gofio ymgyrchoedd llwyddiannus diweddar ac ymhellach yn y gorffenol, a  myfyrio amdanynt. Er enghraifft, yr ymgyrch i ddileu'r fasnach gaethwasiaeth ar draws yr Iwerydd a'r ymgyrch i roi terfyn ar apartheid yn Ne Affrica. Ewch i wefan Ewch a Gwnewch i ddarllen am lwyddiannau diweddar yn yr ymgyrch am drethu teg.

Dathlwch y llwyddiannau a thrafodwch ymhlith eich gilydd pa gamau y gallai eich cymuned o eglwysi eu cymryd i herio anghyfiawnder sy'n digwydd heddiw. Ewch i wefan Ewch a Gwnewch i weld syniadau creadigol ar gyfer gweithredu.

# DAY 1

## Amos 5:22-25
## Luke 11:37-44



### Starting Point

Christians in Indonesia recognize that in their land there are people who passionately try to practise their faith, but who oppress those of other beliefs. In the prophecy of Amos, God rejects the worship of those who neglect justice. In the Gospel of Luke, Jesus reminds us that the outward sign of true worship of God is acting justly. Christians can sometimes be very committed to prayer and worship, but less concerned for the poor and the marginalized. When, as Christians, we work together on justice issues we grow closer to one another and to God.

### Reflection

At the table
we sit,
empty plates, but for a few crumbs.

Everyone's had their fill again,
satiated,
at least for now.

Turning on the taps
we fill our bowls,
in the hope that the stains
will disappear.

The water cascades
over cup
and plate,
cleansing it
of any sign of human contact,
as if there had never been a meal.

In our polite conversation
and edgy discourse,
we fool ourselves
into thinking we are making
a difference.

We faithfully gather,
but are we just acting,
waiting,
for the others to speak up
as we wash our hands?



## Prayer

God of all,
you have shown us the path
of justice.
You are the father of the orphan.
You are the constant companion of
the widow.
You are the friend of the stranger.
In each of these,
may we meet you
and recognize the wind of
your Spirit,
moving us toward the need
for justice.
In all that we do,
may we know your grace and mercy
and offer healing and justice in
your name.

## Questions

- How would you describe justice?
- Where have you recognized justice in action?
- Can we have unity without justice?

## Go and Do

**(see www.ctbi.org.uk/goanddo)**

'Charity is no substitute for justice withheld'.

Take time to reflect and remember campaign successes of the recent and distant past, e.g. the abolition of transatlantic slavery and the end of apartheid in South Africa. Visit Go and Do to read about recent successes in the campaign for tax justice.

Celebrate the successes and get together to discuss what action your community of churches could take to challenge injustice that is happening now. Visit Go and Do for some creative activism ideas.

# DIWRNOD 2

## Effesiaid 4:22-25 Mathew 5:33-37

### Man Cychwyn

Mae'r llythyr at yr Effesiaid yn galw ar Gristnogion i fod yn onest ac yn atebol i'w gilydd fel y gallwn dyfu mewn cymdeithas â'n gilydd. Nid oes unrhyw le i dwyll, gan mai ond amharu ar ein perthynas â'n gilydd wnai hynny gan felly ddinistrio'r gymdeithas honno. Fe'n gelwir i fyw bywyd dilys mewn ffydd a sefyll dros y gwir. Rhaid i'n 'ie' olygu 'ie' a rhaid i'n 'nage' olygu 'nage' – heb ddim iaith amwys nac ymddygiad anonest. Mae anonestrwydd yn amharu ar undod yr Eglwys, sef yr hyn y'n gelwir i weddïo amdano ac i weithio tuag ato.

### Myfyrdod

Os wyf i lefaru'r gwir wrth y grymus,
gwirionedd pwy wyf i'w lefaru?
Cyfiawnder pwy wyf i'w fynnu
yn y bwlch rhwng fy nghywirdeb
innau
a chywirdeb y 'llall'?
Os dywedaf 'ie' wrth gyfiawnder,
a ddaw yn eiddo i mi wedyn?
Beth am y cysgodion rhwng y
pethau sicr?

'Boed i mi ddweud yn bendant,
ar dir cadarn
mai "ie" yw fy "ie",
a'm "nage" yn "nage".' Medd Iesu.

'Boed i mi ysgrifennu'n eglur
yn y tywod
sy'n diffinio ac yn mireinio
gwybodaeth, gwirionedd a chwedlau
yn y fath fodd
ag y gall pawb fod yn sicr.

'Boed i mi drigo'n ddwfn
yn y mannau mewnol
lle, beth bynnag fo'r ymddangosiad
allanol,
y gwyddoch, y tu hwnt i gysgod
amheuaeth,
mai yno y gorwedd gwirionedd a
chyfiawnder,
tangnefedd a daioni.

'A boed i mi,
yn eofn hy
droi ben i waered
ragrith
y rhai sy'n camblethu gonestrwydd
a thwyll,
sy'n sarnu'r gwir â chelwydd
a gwneud hynny'n newyddion.

'Boed i mi amlygu'n eofn y
newyddion da.'

## Gweddi

Dduw cyfiawnder,
rho i mi'r doethineb i allu
gwahaniaethu'n eglur rhwng y
gau a'r gwir.
Boed i'm calon lynu wrth onestrwydd
ac i'm genau lefaru gwirionedd.
Pan fo amheuon yn bygwth, gwisga fi
â dewrder sy'n meiddio ymddiried.

Eneinia fi â sêl dros undod a
thangnefedd
fel y byddaf yn llatai'r newyddion
da i bawb.
Hyn a weddïaf yn enw Iesu. Amen.

## Cwestiynau

- Sut mae'n teimlo pan fo'ch geiriau'n cael eu llurgunio?
- Edrychwch ar fersiynau ar-lein neu ar gopïau papur o eitemau newyddion cyfoes. Allwch chi adnabod enghreifftiau o sbin neu 'ffug newyddion' – beth sy'n awgrymu i chi bod eitem yn ffug?
- Sut, yn ein heglwysi, fyddwn ni'n adrodd neu'n ailadrodd ein hanesion ein hunain er mwyn gwneud i ni'n hunain edrych yn dda?

## Ewch a Gwnewch (www.ctbi.org.uk/goanddo)

Nid yw popeth a ddarllenwn neu a welwn yn y newyddion yn wir. Daeth 'newyddion ffug' yn derm cyffredinol ar gyfer storïau cwbl ffug sydd wedi eu creu'n fwriadol felly a hefyd am hanesion sy'n cynnwys peth gwirionedd ond nad ydynt yn cael eu hadrodd gyda pharch at y ffeithiau.

Trefnwch frecwast darllen papurau newydd ar gyfer yr eglwysi yn eich ardal a threuliwch amser yn darllen y penawdau ac yn meithrin y sgiliau i ddirnad beth sy'n wir yn yr oes 'ôl wirionedd' hon. Ewch i wefan Ewch a Gwnewch i ganfod syniadau am gamau i'w cymryd i adnabod newyddion ffug y gallwch eu trafod dros frecwast.

Ewch i wefan Ewch a Gwnewch i ddysgu am yr ymgyrchoedd y gallech ymuno â hwy i herio'r adroddiadau negyddol a'r adroddiadau sy'n ceisio codi ofn a geir yn y cyfryngau.

# DAY 2

# Ephesians 4:22-25
# Matthew 5:33-37

## Starting Point

The letter to the Ephesians presents a call for Christians to be honest and accountable to each other, so that we may grow in community. There is no place for deceitfulness, for it serves only to impair our relationships and so destroy that community. We are called to live an authentic life of faith and stand up for the truth. Our yes must mean 'yes' and our no must mean 'no' – with no equivocal language or dishonest behaviour. Dishonesty disrupts the unity of the Church for which we are called to pray and work.

## Reflection

If I am to speak truth to power,
whose truth do I speak?
Whose justice do I seek
in the space between my right-ness
and that of the 'other'?
If I say 'yes' to justice,
does that make it all mine?
What of the grey between
the emphatics?

'Let me declare boldly,
sure-footedly
that my yes is
a "yes-yes", and my
no is "no".' Says Jesus.

'Let me draw clarity
in the sand that
defines and refines
knowledge, truth and tales
in such a way
that all are sure.

'Let me dwell deep
in the place within
where, regardless of the
outward form
you know beyond doubt's shadow,
that truth and justice,
peace and righteousness lie.

'And let me,
in my boldness
turn widdershins
the hypocrisy of
those who confuse integrity
with fake-ness,
who obscure truth with falsehood
and call it news.

'Let me boldly be good news.'

## Let your word be 'Yes, Yes' or 'No, No' (Matthew 5:37)







### Prayer

God of justice,
grant me the wisdom to see right
from wrong.
Let my heart be guided by honesty
and my lips speak truth.
In times of doubt, cloak me in
courage the colour of trust.
Birth in me the passion for unity
and peace
so that I may be a good news bearer
for all.
In Jesus' name I pray. Amen.

### Questions

- What does it feel like to have your words distorted?
- Look at on-line or paper copies of current news items. Can you distinguish spin, or 'fake news' – what are the markers of such items?
- How, in our churches, do we tell, or re-tell our own stories in order to set ourselves in a good light?

### Go and Do (see www.ctbi.org.uk/goanddo)

Not everything we read or see in the news is true. 'Fake news' has become a catch-all term for stories that are deliberately made up and also those that have some truth to them but are not reported accurately.

Hold a newspaper reading breakfast for the churches in your area and take time to discuss the headlines and equip yourselves with the skills to discern what is true in this 'post-truth' age? Visit Go and Do to find out some steps for identifying fake news that you can discuss over breakfast.

Visit Go and Do to find out about and join the campaigns challenging the negative and scaremongering reporting in the media.

# DIWRNOD 3

## Salm 145:8-13
## Mathew 1:1-17

### Man Cychwyn

Mae Cristnogion Indonesia yn byw mewn cyd-destun hynod amrywiol. Mae Indonesia'n wlad sydd â thros 17000 o ynysoedd a 1340 o grwpiau ethnig. Mae'r rhaniadau yn yr eglwysi'n aml ar linellau ethnig, a gall rhai eglwysi niweidio undod yr Eglwys drwy ystyried mai hwy yw unig geidwaid y gwirionedd. Mae rhai pobl wedi'u hallgau a'u gwthio i'r ymylon. Mae'r darlleniadau o'r Ysgrythur ar gyfer heddiw'n ein hatgoffa bod cariad Duw uwchlaw ffiniau ethnigrwydd, diwylliant, hil a chrefydd. Mae Duw wedi'i dorri gyda'r rhai toredig. Mae Duw'n sefyll gyda'r rhai gwrthodedig. Mae Duw yn cynnwys pawb yng nghynllun iachawdwriaeth ac ni adewir neb yn alltud.

### Myfyrdod

Geni
Mewn perygl
Cariad – wedi'i wrthod, wedi'i wyro,
wedi'i gamddefnyddio a'i guddio
oddi wrthyf

Torri
Esgeuluso
Hunan - wedi'i wrthod, wedi'i wyro,
wedi'i gamddefnyddio a'i guddio
oddi wrthyf

Gwrthod
Troi heibio
Lle - wedi'i wrthod, wedi'i wyro,
wedi'i gamddefnyddio a'i guddio
oddi wrthyf

Canfod
Gwarchod
Cariad – ei gynnig yn gyflawn, yn
iach, i 'nghynnwys i

Cyfannu
Cysuro
Hunan – ei gynnig yn gyflawn, yn
iach, i 'nghynnwys i

Derbyn
Croesawu
Lle – ei gynnig yn gyflawn, yn iach, i
'nghynnwys i

Poen
Cydnabod
Cariad – dewis, rhoi, derbyn,
dychwelyd

Iacháu
Dechrau

Hunan – dewis rhoi derbyn
dychwelyd

Cyflawnder
Weithiau
Lle – dewis rhoi derbyn dychwelyd

Duw
ganwyd
torrwyd
gwrthodwyd

Bywyd – adferwyd, ail-luniwyd,
i 'nghynnwys i

## Cwestiynau

- Ble ydych chi'n gweld gras a thrugaredd Duw ar waith?
- Pwy yw'r bobl sydd ar y cyrion yn eich cymunedau chi?
- Beth allwch chi / allwn ni ei wneud i ymgysylltu â'r rhai sy'n teimlo eu bod y tu hwnt i gyrraedd Duw?

## Gweddi

Dduw'r holl ddynoliaeth
ganwyd dy fab yn llinach dynion
a merched,
cyffredin ac anghyffredin.
Roedd rhai yn cael eu cofio am eu
gweithredoedd mawrion,
eraill yn hytrach am eu pechodau.
Rho i ni galon agored i rannu dy
gariad di-bendraw,
ac i gofleidio pawb y gwahaniaethir
yn eu herbyn.
Cynorthwya ni i dyfu mewn cariad y
tu hwnt i ragfarn ac anghyfiawnder.
Rho i ni'r gras i barchu'r hyn sy'n
unigryw am bob unigolyn,
fel y gallwn o fewn ein hamrywiaeth
brofi undod.
Gweddïwn hyn yn dy enw sanctaidd.
Amen

## Ewch a Gwnewch (www.ctbi.org.uk/goanddo)

Mae Duw yn sefyll â'r rhai a wthiwyd i'r ymylon eithaf. Ystyriwch sut y gallai eich eglwysi sefyll gyda'r rhai ar ymylon eithaf ein cymdeithas ni. Cysylltwch â chyrff lleol sy'n gweithio i gynorthwyo ceiswyr lloches diymgeledd a gweld beth yw'r ffyrdd gorau y gallech chithau gynorthwyo. Ewch i wefan Ewch a Gwnewch i ganfod mwy o wybodaeth.

Gweithredwch i sicrhau bod y bobl sydd wedi'u dadleoli ond na chyfeirir atynt ym mhenderfyniadau'r Cenhedloedd Unedig ynghylch hawliau ffoaduriaid yn cael eu cofio ac yn derbyn y cymorth sydd ei angen arnynt. Ewch i wefan Ewch a Gwnewch i ganfod mwy o wybodaeth.

# DAY 3

## Psalm 145:8-13
## Matthew 1:1-17




### Starting Point

Christians in Indonesia live within a context of great diversity. Indonesia is a nation of over 17000 islands and 1340 ethnic groups. The churches are often separated along ethnic lines, and some may wound the unity of the Church by regarding themselves as sole guardians of the truth. There are those who are excluded and pushed to the margins. The scripture passages for today remind us that the love of God transcends the boundaries of ethnicity, culture, race, and religion. God is broken with those who are broken. God stands outside with those who are excluded. God includes everyone in the plan of salvation and none are left out.

### Reflection

Born
Endangered
Love - withheld misdirected
misused hidden from me

Broken
Untended
Self - withheld misdirected
misused hidden from me

Rejected
Cast away
Place - withheld misdirected
misused hidden from me

Found
Harboured
Love – offered whole healthy
including me

Broken
Tended
Self – offered whole healthy
including me

Accepted
Welcomed
Place – offered whole healthy
including me

Pain
Acknowledged
Love – chosen given
accepted returned

Healing
Started
Self – chosen given accepted returned

Wholeness
Sometimes
Place – chosen given
accepted returned

God
born
broken
rejected
Life – restored remade including me

## Questions

- Where do you see God's grace and mercy in action?
- Who are those on the margins of your communities?
- What can you/we do to engage those who feel beyond God's reach?

## Prayer

God of all humanity
your Son was born into a line
of men and women,
ordinary and extraordinary.
Some of them were remembered
for their great deeds,
others more for their sins.
Give us an open heart to share your
unbounded love,
and to embrace all who experience
discrimination.
Help us to grow in love beyond
prejudice and injustice.
Grant us the grace to respect the
uniqueness of each person,
so that in our diversity we may
experience unity.
This prayer we make in your
holy name. Amen

## Go and Do (see www.ctbi.org.uk/goanddo)

God stands with those who are most marginalized. Consider how your churches might join with those who are most marginalized in our societies. Contact local organizations working to support destitute asylum seekers and find out how you can help best. Visit Go and Do to find out more.

Take action to ensure those who are displaced but excluded from the UN resolutions on rights of refugees are included and given the support they need. Visit Go and Do to find out more.

## Dyddiadau

Yn draddodiadol, cedwir yr Wythnos Weddi am Undeb Cristnogol o 18-25 Ionawr (wyth niwrnod Pedr a Phaul). Fodd bynnag, bydd rhai grwpiau yn dewis amserau eraill o'r flwyddyn, yn enwedig oddeutu'r Pentecost, sy'n ŵyl symbolaidd o safbwynt undod yr eglwys. Penderfynwch chi, gan gymryd sylw o ffactorau lleol. I ganiatáu eu defnyddio ar unrhyw adeg o'r flwyddyn, nodir y defnyddiau ar gyfer y Diwrnodau â'r rhifau 1-8.

## Trefn y Gwasanaeth

Gallwch dynnu allan y drefn gwasanaeth yng nghanol y daflen a'i llungopïo, os mynnwch. Neu gallwch lawrlwytho'r holl adnoddau oddi ar wefan CTBI, ac y mae croeso i chi eu golygu a'u haddasu at ddefnydd lleol. Cydnabyddwch, os gwelwch yn dda, mai ffynhonnell y deunydd yw Eglwysi Ynghyd ym Mhrydain ac Iwerddon, adnoddau at yr Wythnos Weddi am Undeb Cristnogol.

## Wal Undod Cristnogol

Os gwelwch yn dda, ychwanegwch fanylion a ffotograffau eich digwyddiadau, eich gweddïau a'ch negesau o undod at y 'wal' undod Cristnogol ar www.weekofprayer.org drwy ei roi ar Twitter gan ddefnyddio #wpcuwall. Bydd eich trydariadau yn ymddangos yn awtomatig (ar ôl oedi byr).

~ ~ • ~ ~

## Dates

The Week of Prayer for Christian Unity is traditionally observed from 18th to 25th January (the octave of St Peter and St Paul). However, some groups choose other times of the year, particularly around Pentecost which is a symbolic date for the unity of the church. Do make your own decision, taking local factors into account. To allow for use at any time in the year, the Days material uses the notation 1-8.

## Order of service

The order of service in the centre of the pamphlet can be pulled out and photocopied if you wish. Alternatively, all resources can be downloaded from the CTBI website and you are welcome to further edit or adapt them for local use. Please acknowledge the source of material as Churches Together in Britain and Ireland, Week of Prayer for Christian Unity resources.

## Christian Unity wall

Please add details and photos of your events, prayers and messages of unity to the Christian unity 'wall' at www.weekofprayer.org by posting to Twitter using the #wpcuwall hashtag. Posts appear automatically (after a slight delay).

Yr Wythnos Weddi am Undeb Cristnogol 2019

ADDOLIAD ECIWMENAIDD

# Trefn y Gwasanaeth

ECUMENICAL WORSHIP SERVICE

# Order of Service



Ffotograff /Photo: Flickr /Argo Negoro

## Cyfiawnder yn unig a ddilyni

**(Deuteronomium 16:18-20)**

## Justice and only justice you shall pursue

**(Deuteronomy 16:18-20)**

© Churches Together in Britain and Ireland

## Yr alwad i addoli

Arweinydd — Addolwn y Duw Triol.
Dduw, ein Tad, rwyt yn coroni dy greadigaeth â chyfiawnder a thrugaredd.

**Cynulleidfa — Deuwn i'th addoli.**

Arweinydd — Iesu Grist, daw dy groes â bywyd newydd a chyfiawnder,

**Cynulleidfa — Deuwn i'th addoli.**

Arweinydd — Ysbryd Glân, rwyt yn ysgogi'n calonnau i ymddwyn yn gyfiawn,

**Cynulleidfa — Deuwn i'th addoli.**

Arweinydd — Gras ein Harglwydd Iesu Grist, a chariad
Duw, a chymundeb yr Ysbryd Glân
a fo gyda chwi oll.

**Cynulleidfa — A chyda thithau.**

### Emyn o fawl wrth ymgynnull *(i'w ddewis yn lleol)*

## Geiriau rhagarweiniol

Arweinydd — Deuwn ynghyd, yn Gristnogion o eglwysi gwahanol, yn y lle hwn i weddïo am undod. Eleni, rydym yn gweddïo gydag eglwysi Indonesia, sydd wedi dewis y thema "Cyfiawnder yn unig a ddilyni".

## Call to worship

Leader Let us worship the Triune God.
God, our Father, you crown your creation with justice and mercy.

**Congregation We come to worship you.**

Leader Jesus Christ, your cross brings new life and justice,

**Congregation We come to worship you.**

Leader Holy Spirit, you inspire our hearts to act justly,

**Congregation We come to worship you.**

Leader May the grace of the Lord Jesus Christ, and
the love of God, and the communion of the Holy Spirit
be with you all.

**Congregation And also with you.**

### Gathering hymn of praise *(chosen locally)*

## Introductory words

Leader As Christians from different churches, we gather here to pray for unity. This year, we pray with the churches of Indonesia, whose chosen theme is "Justice, and only justice, you shall pursue".

## Gweddi o edifeirwch

| | |
|---|---|
| Arweinydd | Fy chwiorydd a'm brodyr annwyl, cyffeswn gerbron Duw ein bod wedi pechu. Gofynnwn am faddeuant. |
| Darllenydd 1 | Dduw trugarog,<br><br>roedd Iesu'n bwyta gyda'r gwrthodedig a phechaduriaid. Cyffeswn ein bod yn rhoi blaenoriaeth i bobl sydd â statws uwch mewn cymdeithas, ein bod yn anwybyddu dieithriaid, y tlodion a'r rhai mwyaf distadl a bod gennym ofn amddiffyn y rhai a ormesir.<br><br>Arglwydd, trugarha. |
| **Cynulleidfa** | **Arglwydd, trugarha.** *(Gellir canu'r ymateb hwn.)* |
| Darllenydd 2 | Dduw cyfiawn,<br><br>rwyt yn ein galw ni, dy Eglwys ym mhob man, i ymddwyn yn gyfiawn. Cyffeswn ein bod yn camddefnyddio adnoddau a grym yr Eglwys. Mae hyn yn achosi i rai pobl droi eu cefnau ar dy Eglwys.<br><br>Arglwydd, trugarha. |
| Darllenydd 3 | Dduw cariadlon,<br><br>heriodd Iesu ni i garu ein gilydd. Cyffeswn ein bod yn gweld eglwysi eraill fel cystadleuwyr ac yn anwybyddu'r rhai sy'n anghytuno â'n safbwynt ninnau.<br><br>Arglwydd, trugarha. |
| **Cynulleidfa** | **Arglwydd, trugarha.** |
| Darllenydd 4 | Dduw graslon, |

## Prayer of repentance

Leader — Beloved sisters and brothers, let us confess before God that we have sinned. We ask for forgiveness.

Reader 1 — Compassionate God,

Jesus ate with outcasts and sinners. We confess that we prioritize those of higher social status, that we ignore strangers, the poor and the least in society and that we fear to defend the oppressed.

Lord, have mercy.

**Congregation** — **Lord, have mercy.** *(This response may be sung)*

Reader 2 — Righteous God,

you call us, the Church in every place, to act justly. We confess that we misuse Church resources and power. This causes some people to turn away.

Lord have mercy.

Reader 3 — Loving God,

Jesus challenged us to love one another. We confess that we view other churches as rivals and disregard those who do not share our point of view.

Lord, have mercy.

**Congregation** — **Lord, have mercy.**

Reader 4 — Gracious God,

Fe'n gelwi i ddangos cariad heb wahaniaethu. Cyffeswn ein bod yn amharchu'n cymdogion, yn lledaenu anwiredd ac yn clebran, ac yn gwneud pethau sy'n amharu ar gytgord cymdeithasol.

Arglwydd, trugarha.

**Cynulleidfa** **Arglwydd, trugarha.**

Arweinydd Boed i'r Hollalluog Dduw drugarhau wrthym, maddau ein pechodau a'n harwain i fywyd tragwyddol.

**Cynulleidfa** **Amen.**

### Emyn / Cân

## Cyhoeddi Gair Duw

Gwrandawn am Air Duw yn yr Hen Destament.

### Darlleniad cyntaf: Deuteronomium 16:11-20

Dyma Air yr Arglwydd.

**Diolch a fo i Dduw.**

### Salm Atebiadol Salm: 82:1-8 *(darllen neu ganu)*

Cyfod, o Dduw, i farnu'r ddaear.

**Cyfod, o Dduw, i farnu'r ddaear.**

Y mae Duw yn ei le yn y cyngor dwyfol;
yng nghanol y duwiau y mae'n barnu.
'Am ba hyd y barnwch yn anghyfiawn,

You call us all to love without discrimination. We confess that we disrespect our neighbours, spread falsehood and gossip, and participate in the disruption of social harmony.

Lord, have mercy.

Congregation **Lord, have mercy.**

Leader May almighty God have mercy on us, forgive us our sins and lead us to eternal life.

Congregation **Amen.**

### Hymn/Song

## Proclamation of the Word of God

Let us listen for the word of God in the Old Testament

### First reading: Deuteronomy 16:11-20

This is the word of the Lord

**Thanks be to God**

### Responsorial Psalm: 82:1-8 *(read or sung)*

Rise up, O God, judge the earth.

**Rise up, O God, judge the earth.**

God has taken his place in the divine council;
in the midst of the gods he holds judgement:
'How long will you judge unjustly

ac y dangoswch ffafr at y drygionus?'

**Cyfod, o Dduw, i farnu'r ddaear.**

'Rhowch ddedfryd o blaid y gwan a'r amddifad,
gwnewch gyfiawnder â'r truenus a'r diymgeledd.
Gwaredwch y gwan a'r anghenus,
achubwch hwy o law'r drygionus.'

**Cyfod, o Dduw, i farnu'r ddaear.**

'Nid ydynt yn gwybod nac yn deall,
ond y maent yn cerdded mewn tywyllwch,
a holl sylfeini'r ddaear yn ysgwyd.'
**Cyfod, o Dduw, i farnu'r ddaear.**

'Fe ddywedais i, "Duwiau ydych,
a meibion i'r Goruchaf bob un ohonoch."
Eto, byddwch farw fel meidrolion,
a syrthio fel unrhyw dywysog.'
Cyfod, O Dduw, i farnu'r ddaear,
oherwydd eiddot ti yw'r holl genhedloedd.

**Cyfod, o Dduw, i farnu'r ddaear.**

Clywch yr Efengyl yn ôl Sant Luc.
(*Gellir canu Aleliwia yn unol â'r arfer lleol.*)

## Darlleniad o'r Efengyl: Luc 4:14-21

Dyma Efengyl Crist.

**Mawl i Grist ein Harglwydd.**

(*Aleliwia*)

and show partiality to the wicked?'

**Rise up, O God, judge the earth.**

Give justice to the weak and the orphan;
maintain the right of the lowly and the destitute.
Rescue the weak and the needy;
deliver them from the hand of the wicked.

**Rise up, O God, judge the earth.**

They have neither knowledge nor understanding,
they walk around in darkness;
all the foundations of the earth are shaken.

**Rise up, O God, judge the earth.**

I say, 'You are gods,
children of the Most High, all of you;
nevertheless, you shall die like mortals,
and fall like any prince.'
Rise up, O God, judge the earth;
for all the nations belong to you!

**Rise up, O God, judge the earth.**

Hear the Gospel according to St Luke.
(*An Alleluia may be sung according to local custom*)

## Gospel reading: Luke 4:14-21

This is the Gospel of Christ.

**Praise to Christ our Lord.**

(*An Alleluia may be sung according to local custom*)

## Pregeth ar thema ein hymrwymiad ar y cyd i geisio cyfiawnder

*Mae 'man cychwyn' ar gyfer pregeth i'w gael yn yr adnoddau ychwanegol yn* https://ctbi.org.uk/week-of-prayer-for-christian-unity-resources

# Ymrwymo i Gyfiawnder, Trugaredd ac Undod

Arweinydd — Gweddïodd Iesu Grist am undod ei ddisgyblion.
Rhodd ei fywyd yw cyfiawnder i'r byd.

Darllenydd 1 — Fel aelodau o gorff Crist, fe'n gelwir i rodio'n ostyngedig ac i ymddwyn yn gyfiawn.
Llifed cyfiawnder fel dyfroedd.

**Cynulleidfa — Ysbryd Glân, una ni yn ein gweddïau.**

Darllenydd 2 — Fel aelodau o gorff Crist, fe'n gelwir i lefaru yn erbyn anghyfiawnder.
Boed ein 'Ie' yn 'Ie' a'n 'Nage' yn 'Nage'.

**Cynulleidfa — Ysbryd Glân, una ni yn ein geiriau.**

Darllenydd 3 — Fel aelodau o gorff Crist, fe'n gelwir i amlygu gras a thrugaredd Duw yn hael at bawb.
Torrwn drwy rwystrau ethnigrwydd, crefydd a diwylliant.

**Cynulleidfa — Ysbryd Glân, una ni yn ein dynoliaeth.**

Darllenydd 4 — Fel aelodau o gorff Crist, fe'n gelwir i gadw ein bywydau yn rhydd oddi wrth gariad at arian ac i fod yn fodlon ar yr hyn sydd gennym.
Torrwn gylch trachwant a byddwn fyw yn syml.

## Sermon on the theme of our common commitment to justice

*A sermon 'starting point' can be found at*
https://ctbi.org.uk/week-of-prayer-for-christian-unity-resources

# Commitment to Justice, Mercy and Unity

| | |
|---|---|
| Leader | Jesus Christ prayed for the unity of his disciples.<br>The gift of his life is justice for the world. |
| Reader 1 | As members of the body of Christ, we are called to walk humbly and act justly.<br>Let justice roll down like waters. |
| **Congregation** | **Holy Spirit, unite us in our prayers.** |
| Reader 2 | As members of the body of Christ, we are called to speak out against injustice.<br>Let our word be 'Yes, Yes' or 'No, No'. |
| **Congregation** | **Holy Spirit, unite us in our words.** |
| Reader 3 | As members of the body of Christ, we are called to lavish God's grace and mercy on all.<br>Let us break through barriers of ethnicity, religion and culture. |
| **Congregation** | **Holy Spirit, unite us in our humanity.** |
| Reader 4 | As members of the body of Christ, we are called to keep our lives free from the love of money, and be content with what we have.<br>Let us break the cycle of greed and live in simplicity. |

**Cynulleidfa** **Ysbryd Glân, una ni yn ein gwendid.**

Darllenydd 5 Fel aelodau o gorff Crist, fe'n gelwir i ddod â newyddion da i'r tlodion.
Condemniwn ecsploetio pobl a'r systemau sy'n caniatáu i hynny barhau.

**Cynulleidfa** **Ysbryd Glân, una ni mewn dicter tuag at anghyfiawnder.**

Darllenydd 6 Fel aelodau o gorff Crist, fe'n gelwir i ofalu am y cyfan o'r greadigaeth.
Amddiffynnwn fywyd a harddwch popeth a wnaeth Duw.

**Cynulleidfa** **Ysbryd Glân, iachâ ni ac adfer ni.**

Darllenydd 7 Fel aelodau o gorff Crist, fe'n gelwir i drin pawb ag urddas.
Boed i ni adnabod camwahaniaethu, gormes a cham-drin.

**Cynulleidfa** **Ysbryd Glân, agor ein clustiau i glywed lleisiau'n erfyn am gyfiawnder.**

Darllenydd 8 Fel aelodau o gorff Crist, fe'n gelwir i ddod â gobaith i eraill.
Byddwn yn halen a goleuni.

**Cynulleidfa** **Ysbryd Glân, una ni mewn gobaith am gyfiawnder.**

Rydym newydd ofyn i'r Ysbryd Glân ein huno mewn gweithredu. Ymhen ychydig eiliadau bydd gennym amser i ystyried pa ymrwymiad y gall pob un ohonom ei wneud dros gyfiawnder. Wrth i chi ddod i mewn i'r eglwys rhoddwyd dau gerdyn o wahanol liwiau i chi. Byddant yn cael eu casglu mewn dwy fasged, un ar gyfer pob lliw. Offrymir un fasged i Dduw

**Congregation** **Holy Spirit, unite us in our weakness.**

Reader 5 As members of the body of Christ, we are called to bring good news to the poor.
Let us condemn exploitation and the systems that perpetuate it.

**Congregation** **Holy Spirit, unite us in anger towards injustice.**

Reader 6 As members of the body of Christ, we are called to care for the whole of creation.
Let us protect the life and beauty of all that God has made.

**Congregation** **Holy Spirit, heal us and restore us.**

Reader 7 As members of the body of Christ, we are called to treat all with dignity.
Let us recognize discrimination, oppression and abuse.

**Congregation** **Holy Spirit, open our ears to the cries for justice.**

Reader 8 As members of the body of Christ, we are called to bring hope to others.
Let us be salt and light.

**Congregation** **Holy Spirit, unite us in hope for justice.**

We have just asked the Holy Spirit to unite us in action. In a few moments we will have time to consider what commitment each one of us can make to justice. As you entered the church you were given two different coloured cards. Write your commitment on both of them. They will be collected in two baskets, one for each colour. One basket will be offered to God,

a bydd yr ail fasged ar gyfer ein grŵp Eglwysi Ynghyd (neu pa bynnag grŵp sydd wedi trefnu'r gwasanaeth hwn) fel y gallwn ystyried sut i alluogi ein cynulleidfaoedd i gyflawni'r ymrwymiadau hynny.

Felly, ystyriwch am ennyd. Pa gam, waeth pa mor fach, allwch chi ei gymryd i hyrwyddo cyfiawnder Duw yn ein byd toredig?

(*Gall côr ganu cân ynghylch undod a/neu gyfiawnder neu gellir chwarae cerddoriaeth tra bydd aelodau'r gynulleidfa'n ysgrifennu eu hymrwymiadau.*)

*(Tuag at ddiwedd y gân neu'r gerddoriaeth, mae'r ystlyswyr yn casglu'r cardiau mewn dwy fasged. Cyflwynir un i gynrychiolwyr y grŵp Eglwysi Ynghyd, a gosodir y llall wrth droed y groes.)*

## Offrwm

Arweinydd — Hyn a gais yr Arglwydd gennyt: dim ond gwneud beth sy'n iawn, caru teyrngarwch, ac ymostwng i rodio'n ostyngedig gyda'th Dduw. (Micha 6:8) Ymrwymwn i weithredu mewn cyfiawnder.

Dduw graslon,
rwyt ti wedi dangos i ni dy dosturi a'th ofal dros yr holl greadigaeth. Mae dy gariad yn ein hysbrydoli i gyflwyno i ti'r ymrwymiadau hyn i ymddwyn yn gyfiawn drwy ddangos cariad twymgalon at eraill waeth beth fo eu cefndir diwylliannol, ethnig neu grefyddol. Derbyn yn awr ein hoffrymau a thrawsffurfia hwy'n weithredu er undod dy Eglwys. Gofynnwn hyn drwy dy Fab Iesu Grist, yng ngrym yr Ysbryd Glân, sy'n byw gyda thi'n un Duw yn oes oesoedd.

**Cynulleidfa** — **Amen.**

the second basket is for our Churches Together group (or whichever group has organized this service) so that we can consider how to enable our congregations to carry out these commitments.

So take a moment now to consider. What step, however small, can you take to further God's justice in our broken world?

(*A song for unity and/or justice may be sung by the choir or music played as the congregants write their commitments.*)

*(Near the end of this song/music, ushers collect the cards in two baskets. One is presented to a representative of the Churches Together group, and the other is put at the foot of the cross.)*

## Offering

Leader — What does the Lord require of you but to do justice, and to love kindness, and to walk humbly with your God? (Micah 6:8) We commit ourselves to acts of justice.

Gracious God,
you have shown us your compassion and care for all creation. Your love inspires us to offer these commitments to act justly by loving others wholeheartedly regardless of their cultural, ethnic, and religious backgrounds. Accept now our offerings and transform them into action for the unity of your church. We ask this through your Son Jesus Christ, in the power of the Holy Spirit, who live with you as one God forever and ever.

**Congregation** — **Amen.**

## Credo Nicea

Credwn yn un Duw,
Y Tad hollalluog,
gwneuthurwr nef a daear,
a phob peth gweledig ac anweledig.
Credwn yn un Arglwydd Iesu Grist,
unig Fab Duw,
a genhedlwyd gan y Tad cyn yr holl oesoedd,
Duw o Dduw, Llewyrch o Lewyrch,
gwir Dduw o wir Dduw,
wedi ei genhedlu, nid wedi ei wneuthur,
yn un hanfod â'r Tad,
a thrwyddo ef y gwnaed pob peth:
yr hwn er ein mwyn ni ac er ein hiachawdwriaeth a ddisgynnodd o'r nefoedd,
ac a wnaed yn gnawd trwy'r Ysbryd Glân o Fair Forwyn,
ac a wnaethpwyd yn ddyn,
ac a groeshoeliwyd hefyd drosom dan Pontius Pilat.
Dioddefodd angau ac fe'i claddwyd.
Atgyfododd y trydydd dydd yn ôl yr Ysgrythurau,
ac esgynnodd i'r nef,
ac y mae'n eistedd ar ddeheulaw'r Tad.
A daw drachefn mewn gogoniant i farnu'r byw a'r meirw:
ac ar ei deyrnas ni bydd diwedd.
Credwn yn yr Ysbryd Glân,
yr Arglwydd, rhoddwr bywyd,
sy'n deillio o'r Tad [a'r Mab],
yr hwn gyda'r Tad a'r Mab a gydaddolir ac a gydogoneddir,
ac a lefarodd trwy'r proffwydi.
Credwn yn un Eglwys lân gatholig ac apostolig.

# The Nicene Creed

We believe in one God,
the Father, the Almighty,
maker of heaven and earth,
of all that is, seen and unseen.
We believe in one Lord, Jesus Christ,
the only Son of God,
eternally begotten of the Father,
God from God, Light from Light,
true God from true God,
begotten, not made,
of one Being with the Father;
through him all things were made.
For us and for our salvation
he came down from heaven,
was incarnate of the Holy Spirit and the Virgin Mary
and became truly human.
For our sake he was crucified under Pontius Pilate;
he suffered death and was buried.
On the third day he rose again
in accordance with the Scriptures;
he ascended into heaven
and is seated at the right hand of the Father.
He will come again in glory to judge the living and the dead,
and his kingdom will have no end.
We believe in the Holy Spirit, the Lord, the giver of life,
who proceeds from the Father [and the Son],
who with the Father and the Son is worshiped and glorified,
who has spoken through the prophets.
We believe in one holy, catholic and apostolic Church.



Cydnabyddwn un Bedydd er maddeuant pechodau.
A disgwyliwn am atgyfodiad y meirw,
a bywyd y byd sydd i ddyfod. Amen.

## Gweddïau ymbil

Arweinydd — Gadewch i ni ddyrchafu i Dduw ein gweddïau ar y cyd dros yr Eglwys a thros anghenion yr holl ddynoliaeth.

Darllenydd — O'r ynysoedd a'r cefnforoedd,
Addolwn di, O Dduw, Creawdwr bywyd.
Ledled y mynyddoedd a'r dyffrynnoedd,
molwn di, O Dduw, Iachawdwr y byd.
Yn ieithoedd yr holl genhedloedd,
diolchwn i ti, O Dduw, Cysurwr cyrff ac eneidiau.
Deuwn ger dy fron gyda'n beichiau a'n gobeithion.
Heddiw gofynnwn i ti:

**Cynulleidfa — O Dduw, clyw ein gweddi a chaniatâ i ni dy gariad.**

Darllenydd — Gweddïwn dros bawb sy'n byw dan faich anghyfiawnder.
Annog ni i ddyrchafu eu lleisiau hwythau ac i gadarnhau eu gobaith.
Gweddïwn dros y rhai sy'n parhau i weithredu'n anghyfiawn.
Boed i'th garedigrwydd di drawsnewid eu calonnau a'u gwneud yn offerynnau rhyddid a heddwch.
Gweddïwn dros bob corff a phob unigolyn sy'n sefyll dros gyfiawnder.
Boed i ni weithredu'n gyfiawn yn unol â'th eiriau.
Heddiw gofynnwn i ti:

**Cynulleidfa — O Dduw, clyw ein gweddi a chaniatâ i ni dy gyfiawnder.**

We acknowledge one baptism for the forgiveness of sins.
We look for the resurrection of the dead,
and the life of the world to come. Amen.

## Prayers of intercession

| | |
|---|---|
| Leader | Let us raise to God our common prayer for the Church and for the needs of all humanity. |
| Reader | From the islands and the oceans,<br>we worship you, O God, the Creator of life.<br>Throughout the mountains and the valleys,<br>we praise you, O God, the Saviour of the world.<br>With the tongues of all nations,<br>we thank you, O God, the Comforter of bodies and souls.<br>We come before you bearing our burdens and hopes.<br>Today we ask you: |
| **Congregation** | **O God, hear our prayer and grant us your love.** |
| Reader | We pray for those who live with injustice.<br>Encourage us to lift up their voices and strengthen their hope.<br>We pray for those who continue to perpetuate injustice.<br>May your kindness transform their hearts and make them agents of freedom and peace.<br>We pray for every institution and every person who stands for justice.<br>Let us act justly according to your words.<br>Today we ask you: |
| **Congregation** | **O God, hear our prayer and grant us your justice.** |

Darllenydd
Gweddïwn dros undod gweladwy'r Eglwys.
Dathlwn amrywiaeth gyfoethog dy bobl.
Boed i ni deimlo rheidrwydd i gyflawni gweddi Iesu y byddwn oll yn un
a chydweithio fel bo dy Deyrnas yn byw drwom.
Heddiw gofynnwn i ti:

Cynulleidfa
**O Dduw, clyw ein gweddi a chaniatâ i ni sêl dros undod.**

Darllenydd
Diolchwn i ti am liwiau, diwylliannau a thraddodiadau niferus ein byd.
Yn ein hamrywiaeth, una ni â'th gariad.
Galluoga ni i weithredu ar y cyd i warchod bywyd ac i wneud y byd
hwn yn aelwyd gyfiawn a heddychlon ar gyfer y ddynoliaeth gyfan.
Heddiw gofynnwn i ti:

Cynulleidfa
**O Dduw, clyw ein gweddi a chaniatâ i ni dy dangnefedd.**

## Gweddi'r Arglwydd

Ein Tad yn y nefoedd,
sancteiddier dy enw;
deled dy deyrnas;
gwneler dy ewyllys,
ar y ddaear fel yn y nef.
Dyro inni heddiw ein bara beunyddiol;
a maddau inni ein troseddau,
fel yr ŷm ni wedi maddau i'r rhai a droseddodd yn ein herbyn;
a phaid â'n dwyn i brawf,
ond gwared ni rhag yr Un drwg.
Oherwydd eiddot ti yw'r deyrnas
a'r gallu a'r gogoniant am byth.
Amen.

| | |
|---|---|
| Reader | We pray for the visible unity of the Church.<br>We celebrate the rich diversity of your people.<br>May we be compelled to fulfil Jesus' prayer that we may be one and work together to live your Kingdom.<br>Today we ask you: |
| **Congregation** | **O God, hear our prayer and grant us a passion for unity.** |
| Reader | We thank you for the many colours, cultures, and customs of our world.<br>In our differences, unite us by your love.<br>Enable us to act together to uphold life<br>and to make this world a just and peaceful household for all humanity.<br>Today we ask you: |
| **Congregation** | **O God, hear our prayer and grant us your peace.** |

## The Lord's Prayer

Our Father in heaven,
hallowed be your name,
your kingdom come,
your will be done,
on earth as in heaven.
Give us today our daily bread.
Forgive us our sins
as we forgive those who sin against us.
Save us from the time of trial and deliver us from evil.
For the kingdom, the power, and the glory are yours now and for ever.
Amen.

**Emyn/Cân**
*(Yn ystod y canu, eir â'r fasged sydd o flaen y groes at y drws.)*

## Rhannu tangnefedd

*Mae'r arweinydd yn gwahodd y gynulleidfa i gyfnewid arwydd o dangnefedd.*

Arweinydd Wrth i chi adael yr oedfa hon, fe'ch gwahoddir i gymryd un o'r cardiau ymrwymiad o'r fasged. Gofynnwn i chi weddïo dros y sawl a wnaeth yr ymrwymiad hwnnw.

## Y Fendith

Arweinydd Boed i Dduw eich cofleidio â'i gariad
a gwneud i garedigrwydd lifo ohonoch.
Boed i Dduw ennyn dewrder o'ch mewn
a'ch trawsffurfio i fod yn offerynnau ei gyfiawnder
a'i dangnefedd.
Rhodded Duw i chi ostyngeiddrwydd
a'r dyfalbarhad i weithio tuag at undod.

**Cynulleidfa** **Amen!**

*Dylid gwahodd pobl i gymryd cerdyn o'r fasged wrth iddynt ymadael.*

### Hymn/Song

*(during which the basket which is in front of the cross is taken to the door)*

## Sharing peace

*The leader invites the assembly to exchange a sign of peace.*

Leader As you leave this gathering you will be invited to take one commitment card from the basket. We invite you to pray for the person who has made that commitment.

## Blessing

Leader May God embrace you with love
and make kindness flow out from you.
May God ignite courage within you
and transform you into agents of justice and peace.
May God grant you humility
and give you perseverance to nurture unity.

**Congregation Amen!**

*Invite people to take a card from the basket as they leave.*

## Cydnabyddiaeth am ffotograffau

Grunge rule: yn seiliedig ar faner gan Freestock.ca/Nicolas Raymond
t1/36/adlewyrchiadau: yn seiliedig ar faner Indonesia gan Freestock.ca/Nicolas Raymond
t1/13: Flickr /Argo Negoro
t3: Flickr /Abraham Arthemius
t27: Flickr / Mararie
t29: Flickr / Lavinia Elysia
t31: Flickr / Everyone Sinks Starco
t33: Flickr / Budi Nusyirwan

## Photo credits

Grunge rule: based on flag by Freestock.ca/Nicolas Raymond
p1/36/reflections: based on Indonesian flag by Freestock.ca/Nicolas Raymond
p1/13: Flickr /Argo Negoro
p3: Flickr /Abraham Arthemius
p27: Flickr / Mararie
p29: Flickr / Lavinia Elysia
p31: Flickr / Everyone Sinks Starco
p33: Flickr / Budi Nusyirwan

Daw'r adnodau Ysgrythurol o'r Beibl Cymraeg Newydd, Argraffiad Diwygiedig, hawlfraint 2004 gan Gymdeithas y Beibl. Defnyddiwyd gyda chaniatâd Cymdeithas y Beibl. Cedwir pob hawl.

**Bible verses** from the New Revised Standard Version Bible: Anglicized Edition, copyright 1989, 1995, Division of Christian Education of the National Council of the Churches of Christ in the United States of America. Used by permission. All rights reserved.

English translations of Lord's Prayer and The Nicene Creed © 1988 English Language Liturgical Consultation (ELLC). www.englishtexts.org. Used by permission.

# Cydnabyddiaeth

### Awduron Wythnos Weddi am Undeb Cristnogol Eglwysi Ynghyd ym Mhrydain ac Iwerddon 2019

Bob blwyddyn mae Eglwysi Ynghyd ym Mhrydain ac Iwerddon (CTBI) yn cydweithio â nifer o wahanol awduron o fewn y pedair gwlad i gynhyrchu'r deunyddiau hyn i chi eu defnyddio. Er mwyn cydnabod y cydweithrediad hwn rydym wedi rhestru isod y rhai a'n cynorthwyodd i gyflawni'r dasg hon ar gyfer 2019:

**Y Parchedig Ddoethor Adrian Burdon** (Llywydd), Arolygydd Cylchdaith Shaw a Royton, Manceinion

**Jenny Bond**, Eglwysi Ynghyd yn Lloegr

**Y Parchedig Peter Colwell**, Dirprwy Ysgrifennydd Cyffredinol, Eglwysi Ynghyd ym Mhrydain ac Iwerddon

**Ruth Harvey**, Cyfarwyddwr Place for Hope, Gweinidog yn Eglwys yr Alban ac aelod o Gymdeithas Grefyddol y Cyfeillion

**Doral Hayes**, Swyddog Datblygu Gweithredol, Cymdeithas Teuluoedd Rhyngeglwysig

**Phillip Mellstrom**, Swyddog Datblygu Addoliad, Eglwys yr Alban

**Y Doethor Siôn Aled Owen**, Gwasanaethau Iaith Geirda

**Denise Tapfumaneyi**, Gweinyddwr Swyddfa, Eglwysi Ynghyd ym Mhrydain ac Iwerddon

**Wendy Young**, Swyddog Adnoddau Eglwysi, Cymorth Cristnogol

# Acknowledgements

### CTBI WPCU 2019 Writers

Each year Churches Together in Britain and Ireland (CTBI) works in collaboration with various writers from within the four nations to produce these materials for your use. In acknowledgment of this collaboration we have listed below the colleagues who have helped us accomplish this task for 2019:

| | | |
|---|---|---|
| **Revd Dr Adrian Burdon** (Moderator) | - | Superintendent Minister of the Shaw and Royton Circuit, Manchester |
| **Jenny Bond** | - | Churches Together in England |
| **Revd Peter Colwell** | - | Deputy General Secretary, CTBI |
| **Ruth Harvey** | - | Director of Place for Hope, Church of Scotland Minister and a member of the Religious Society of Friends |
| **Doral Hayes** | - | Executive Development Officer, Association of Interchurch Families |
| **Phillip Mellstrom** | - | Worship Development Worker, Church of Scotland |
| **Dr Siôn Aled Owen** | - | Geirda Language Services |
| **Denise Tapfumaneyi** | - | Office Administrator, CTBI |
| **Wendy Young** | - | Church Resources Officer, Christian Aid |

# DIWRNOD 4

## Hebreaid 13:1-5

## Mathew 6:25-34



Siopa yn Bali

### Man Cychwyn

Mae daioni Duw wedi darparu digonedd o fwyd a dŵr croyw i gadw pawb yn fyw ac eto mae llawer o bobl heb yr angenrheidiau hynny. Mae trachwant dynol yn aml yn arwain at lygredd, anghyfiawnder, tlodi a newyn. Mae Iesu'n ein dysgu i beidio ag ymdrechu i gasglu i'n hunain fwy o bethau materol nag y mae arnom eu hangen. Dylem yn hytrach ymroi i gyhoeddi Teyrnas tegwch ac i ddatgan bod Duw yn teyrnasu mewn cyfiawnder. Gelwir Cristnogion i fyw bywydau sy'n galluogi dyfroedd cyfiawnder i lifo.

### Myfyrdod

Crafangaf ynghyd
friwsion fy nhrachwant,
efallai ddigon i fwydo adar y to?

Drachtiaf
o orlif fy nghwpan,
efallai ddigon i foddi fy ngofidiau?

Holaf fy hun,
pryd fydd digon
fyth yn ddigon?

Gofynni
a fedra i sbario unrhyw newid
a dw innau'n poeni
nad oes gen i ddigon

digon o reswm da
digon o ewyllys da
digon o drugaredd
digon o gydymdeimlad
digon o ddynoliaeth
digon o egni
digon o awydd
digon o ddewrder
i fynnu'r newid sydd raid.


Slymiau yn Bogor

## Gweddi

Dduw'r tymhorau,
boed hynny yng nghyfoeth cynhaeaf,
neu pan na ddaeth dim ffrwyth
o'n hau;
boed i ni ymfodloni,
gan mai digon dy ras i ni.
Cynorthwya ni i feithrin yr haelioni,
i rannu'r hyn a feddwn
â'r rhai heb ddim.
Boed i ni oll brofi bendith
dy gariad, dy ras, dy dosturi
a'th drugaredd,
wrth i ni geisio rhodio'n ostyngedig
gan gofleidio cyfiawnder,
yn dy enw dithau. Amen

## Cwestiynau

- Rhannwch stori am amser pan nad oedd gennych chi ddigon – sut oeddech chi'n teimlo?
- Beth sydd fwyaf anodd i chi ei rannu?
- Beth sydd fwyaf anodd i chi ei dderbyn?

## Ewch a Gwnewch (www.ctbi.org.uk/goanddo)

Sylwch ar y negeseuon hysbysebu rydych yn eu derbyn - ar fysiau, ar bosteri, ar y teledu, mewn papurau newydd ac ar-lein. Meddyliwch am y negeseuon rydym yn eu treulio bob dydd ynghylch pethau y dywedir wrthym bod arnom eu hangen.

Meddyliwch am eich ymddygiad fel defnyddiwr ac ystyriwch pa gamau y gallem eu cymryd fel unigolion ac fel cymuned o eglwysi i fyw'n syml er mwyn i eraill allu byw o gwbl.

Cynlluniwch daith Garawys rhwng yr eglwysi yn eich ardal sy'n cynnwys 'ympryd' rhag prynu ac yn rhoi cyfle i bobl gyfrif a rhannu eu bendithion yn lle hynny. Ewch i wefan Ewch a Gwnewch i ganfod mwy o wybodaeth.

# DAY 4

## Hebrews 13:1-5
## Matthew 6:25-34



Shopping in Bali

### Starting Point

God's goodness has provided ample food and fresh water to sustain life for all and yet many people lack these necessities. Human greed frequently leads to corruption, injustice, poverty and hunger. Jesus teaches us not to be concerned about accumulating more material things than we need. We should, rather, be concerned with proclaiming the Kingdom of equity and announcing God's reign of justice. Christians are called to live lives which enable the waters of justice to flow.

### Reflection

I scrape together
the crumbs of my excess,
perhaps enough to feed
  the sparrows?

I soak up
the spilling over of my cup,
perhaps enough to drown
  my sorrows?

I ask myself,
when is enough
ever going to be enough?

You ask me
if I can spare any change
and I worry
that I do not have enough

enough good reason
enough good will
enough compassion
enough empathy
enough humanity
enough energy
enough desire
enough courage
to make the change that is
  sorely needed.

# Be content with what you have (Hebrews 13:5)



Slums in Bogor

## Prayer

God of the seasons,
whether in bountiful harvest,
or when there is no yield for what
we have sown;
let us be content,
that your grace is sufficient.
Help us to have the generosity
of spirit,
to share what we have
with those who have not.
May we all be blessed
with love, grace, compassion
and mercy,
as we seek to walk humbly
and do justly,
for your name's sake. Amen.

## Questions

- Share a story of a time when you did not have enough – how did you feel?
- What do you find the most difficult thing to share?
- What do you find the most difficult thing to receive?

## Go and Do (see www.ctbi.org.uk/goanddo)

Pay attention to the advertising messages you receive, on buses, billboards, TV, newspapers, online. Reflect on the messages that we are absorbing everyday about what we supposedly need.

Reflect on your identity as a consumer and consider the steps we can take as individuals and as a community of churches to live simply so others can simply live?

Plan a Lent journey between the churches in your area that involves a fast from buying and how we might count and share our blessings instead. Visit Go and do to find out more.

# DIWRNOD 5

## Amos 8:4-8

## Luc 4:16-21



### Man Cychwyn

Beirniadodd y proffwyd Amos y masnachwyr twyllodrus a oedd yn elwa ar y tlodion. Ni fydd Duw, sy'n ochri â'r rhai sy'n dioddef anghyfiawnder, yn anghofio'r fath gamwri. Yng nghyfnod globaleiddio, mae diystyru, cam-drin ac anghyfiawnder o'r fath yn rhemp. Mae'r bwlch rhwng y cyfoethog a'r tlawd yn ehangu. Mae gofynion economaidd yn dod yn brif ystyriaeth yn ein perthynas â'n gilydd ac mae gofynion cyfiawnder yn cael eu gwthio fwyfwy i'r ymylon. Gelwir Cristnogion i herio agweddau difeddwl ac i weithio dros gyfiawnder.

### Myfyrdod

Mi greda i pan wela i!
Dwi wedi'i glywed i gyd o'r blaen!
'All pethau ond gwella'
'Hyfdra gobaith'
Addewidion am ffordd newydd!
Newyddion da?
Dydyn nhw ond yn sloganau ar
ochr bws pan fo'r tlodion yn aros
yn dlawd,
y rhai bregus yn parhau i gael eu
cam-drin a neb yn dweud dim!
Ydych chi'n meddwl y galla i neidio
a dawnsio
pan mae 'nwylo a 'nhraed yn drwm
gan lid am yr addewidion gau?
Felly rwy'n syllu arnoch, gan mai
ond syllu alla i ei wneud.

Ond
os yw'r 'newyddion da' yn golygu
gwrthsefyll grym,
dymchwel y byrddau lawr y ffordd
yn y ddinas fawr,
cerdded, sgwrsio â bwyta gyda phobl
fel ni,
teithio'r holl ffordd gyda ni,
nid diflannu pan mae pethau'n mynd
yn rhy anodd,
hyd yn oed pan fo'r dioddef yn
ormod i'w oddef,
byddai hynny'n wir yn rhywbeth
newydd.
Dyna fyddai cyflawni'r newyddion da.
Wedyn gallwn gael fy nhemtio i
ymddiried un tro eto.

# Dod â newyddion da i'r tlodion (Luc 4:18)



## Gweddi

Dduw, negesydd y newyddion da,
maddau ein hawch am rym
a rhyddha ni o'r demtasiwn i
ormesu eraill.
Ennyn ynom y penderfyniad
i roi dy newyddion da ar waith ynom
ninnau a phawb o'n cwmpas,
wrth i ni rannu yng nghenhadaeth
dy fab Iesu
i gyflawni dy addewid am ryddid
oddi wrth dlodi a gormes.
Gweddïwn yn ei enw ef. Amen.

## Cwestiynau

- Ble ydych chi'n gweld twyll ac addewidion gau?
- Pwy yw'r tlodion a phwy yw'r rhai grymus yn eich cymuned chi?
- Beth allwn ni ei wneud i ddod â newyddion da'r efengyl i'r rhai grymus ac i'r tlodion fel ei gilydd?

## Ewch a Gwnewch (www.ctbi.org.uk/goanddo)

Mae Fforwm Economaidd y Byd yn cyfarfod o 22 hyd 25 Ionawr 2019 yn Davos, sef ar yr un adeg ag y bydd llawer o eglwysi'n cadw'r Wythnos Weddi am Undeb Cristnogol. Dyma ddigwyddiad lle amlygir y diffyg undod a'r anghydraddoldeb dybryd a welir ledled y byd. Mae 42 o bobl yn berchen ar gymaint o gyfoeth ag sydd gan y 50 y cant tlotaf (Oxfam 2018).

Neilltuwch amser yr wythnos hon i gydweithio am fyd lle bydd nid yn unig undod rhwng Cristnogion ond hefyd amgylchiadau lle gallwn ffynnu fel bodau dynol ynghyd. Ymrowch o'r newydd i gefnogi masnach sy'n deg a moesol ac i barhau i ymgyrchu i fynnu bod trethi'n cael eu talu. Ewch i wefan Ewch a Gwnewch i ganfod mwy o wybodaeth.

# DAY 5

## Amos 8:4-8
## Luke 4:16-21



### Starting Point

The prophet Amos criticized traders who practiced deceit and exploited the poor. God, who sides with the victims of injustice, will not forget such wrongdoing. In a globalized world, such marginalization, exploitation and injustice is rampant. The gap between rich and poor is becoming wider. Economic demands become the deciding factor in our relationships and the demands of justice are more and more pushed to the side-lines. Christians are called to challenge the prevailing attitudes and to work for justice.

### Reflection

I'll believe it when I see it!
I've heard it all before!
'Things can only get better'
'Audacity of hope'
Promises of something new!
Good news?
They are just bus-slogans when the
poor remain poor,
the vulnerable abused and no-one
speaks out!
Do you think I can jump up
and dance
when my hands and feet are made
heavy with the anger from
broken promises?
And so I stare at you,
because to stare is all I can do.

But
if 'good news' means
rising up against power,
overturning the tables down the
road in the big city,
walking, talking and eating with
people like us,
going the whole way with us,
not departing when things get
too tough,
even when the suffering becomes
too great to endure,
this would truly be something new.
It would be good news fulfilled.
Then I could be tempted to trust
one more time.



## Prayer

God, the bringer of good news,
forgive our lust for power
and free us from the temptation to oppress others.
Instil in us the determination
to see your good news made real in us and those around us,
as we share in the mission of your Son Jesus
to fulfil your promise of freedom from poverty and oppression.
We pray in his name. Amen.

## Questions

- Where do you see deceit and false promises?
- Who are the poor and the powerful in your community?
- What can we do to bring the good news of the gospel to both the powerful and the poor?

## Go and Do (see www.ctbi.org.uk/goanddo)

The World Economic Forum meets from 22nd – 25th January 2019 in Davos, coinciding with when many churches mark the Week of Prayer for Christian Unity. It is a moment that highlights the extreme disunity and inequality across the world. 42 people own the same wealth as the poorest 50 percent (Oxfam 2018).

Take time this week to work together for a world where there is unity not just between Christians but where we as human beings can flourish together. Renew your commitment to trade that is fair and ethical and to continue to campaign for taxes to be paid. Visit Go and Do for more information.

# DIWRNOD 6

## Jeremeia 10:12-16

## Marc 16:14-15



### Man Cychwyn

Heddiw rydym yn wynebu argyfwng ecolegol dwys byd-eang ac mae dyfodol y blaned dan fygythiad. Mae'r darlleniad o Efengyl Marc yn ein hatgoffa bod Iesu, ar ôl ei atgyfodiad, wedi comisiynu'r disgyblion i bregethu'r newyddion da i'r holl greadigaeth. Nid oes unrhyw ran o'r greadigaeth y tu hwnt i gynllun Duw i greu popeth o'r newydd. Felly, gelwir Cristnogion i hybu gwerthoedd sy'n cymodi'r ddynoliaeth â gweddill y greadigaeth. Pan fyddwn yn ymuno â phobl eraill i amddiffyn ein cartref ni oll, y ddaear, nid dim ond gweithredu'n wleidyddol a fyddwn, ond cyflawni gorchymyn yr Arglwydd i gyhoeddi newyddion da Duw am ei gariad iachusol ac adferol i'r holl greadigaeth.

### Myfyrdod

Cyhoeddwch y newyddion da i'r holl greadigaeth,
ac nid dim ond fy rhan fach innau ohoni.

O Dduw, a wnaeth y byd, yn gorff ac yn rhodd.
Mae dy greadigaeth yn griddfan.
Beth wnaethon ni?
Llygru tir a môr,
difrod a difodiant,
dileu cymunedau,
gwasgar teuluoedd.
A ninnau'n gyffyrddus braf.

Mae dy greadigaeth yn griddfan.
Beth wnaethon ni?
Byd drylliedig,
Trefn doredig.
Ar sylfaeni ynfydrwydd, dinistr,
esgeulustod a thrachwant.
Cam-drin rhodd Duw,
a ninnau'n ddi-hid.

Ble mae llais Duw,
a thonnau grymus cyfiawnder Duw?
Corff Duw ydym ninnau hefyd,
yn meddwl y tu hwnt i'n hunain,
yn gweld y canlyniadau,
yn gwrando am y llef
fymryn uwchlaw tawelwch,
wrth nofio yn erbyn y llanw.

Yn gofyn beth a wnaf?

# Arglwydd y Lluoedd yw ei enw (Jeremeia 10:16)



Awyr llygredig ar gyrion Surabaya

## Gweddi

Dduw cariadus,
a anadlaist fywyd i bopeth,
diolchwn i ti am y byd
sy'n adlewyrchu dy ogoniant,
dy amrywiaeth a'th brydferthwch.
Caniatâ i ni'r doethineb i gerdded yn
dyner ar y ddaear
ac i rannu gyda'n gilydd dy newyddion da â'r holl greadigaeth. Amen

## Cwestiynau

- Ble ydych chi'n gweld grym dynol yn cael ei gamddefnyddio, gan arwain at ddinistr neu esgeulustod?
- Ble ydych chi'n gweld cyfiawnder Duw yn y greadigaeth?
- Ble allwn ninnau wneud gwahaniaeth?

## Ewch a Gwnewch (www.ctbi.org.uk/goanddo)

Gwisgwch ddillad cynnes, llenwch eich fflasg, a threfnwch dro natur gyda'r eglwysi yn eich ardal. Defnyddiwch y daith fel cyfle i gydgerdded ac i ailddarganfod eich cyswllt â'r byd naturiol rydym oll yn rhan ohono. Gallech fynd i barc os ydych yn byw mewn dinas, neu gamu'n syth i gefn gwlad os yno rydych yn byw.

Gweddïwch y bydd y byd yn canfod ffordd amgen ymlaen ac y byddwn fel bodau dynol yn gweithio gyda'r greadigaeth yn lle yn ei herbyn. Ewch i wefan Ewch a Gwnewch i weld beth allech chi ei wneud yn ymarferol yn y cam nesaf yn yr ymgyrch am gyfiawnder hinsawdd.

# DAY 6

## Jeremiah 10:12-16
## Mark 16:14-15



### Starting Point

We are, today, facing a serious global ecological crisis and the survival of the planet is threatened. The passage from Mark's Gospel reminds us that, after his resurrection, Jesus commissioned the disciples to proclaim the good news to the whole creation. No part of creation is outside God's plan to make all things new. So, Christians are called to promote values which reconcile humankind with all creation. When we join with other people in defence of our common earthly home, we are not just engaging in activism, but we are fulfilling the Lord's command to proclaim to all creation the good news of God's healing and restoring love.

### Reflection

Proclaim the good news to all
 of creation,
not just to my small part.

Oh God, who made the world,
 both body and gift.
Your creation groans.
What have we done?
Land and sea polluted,
death and destruction,
communities gone,
families displaced.
While we sit in comfort.

Your creation groans.
What have we done?
A damaged world,
a broken system.
Upheld by stupidity, destruction,
 neglect and greed.
An abuse of God's gift,
while we disconnect.

Where is God's voice,
God's rolling waves of justice?
We too are God's body,
thinking beyond ourselves,
seeing consequences,
listening for the still small voice,
swimming against the tide.

Asking what shall I do?



Air pollution at the edge of Surabaya

## Prayer

Loving God,
by whose breath all things came
to be,
we thank you for the world
which manifests your glory,
diversity and beauty.
Grant us the wisdom to walk gently
upon the earth
and to share together your good news
with all creation. Amen

## Questions

- Where do you see an abuse of human power, leading to destruction or neglect?
- Where do you see God's justice in the created world?
- Where can we make a difference?

## Go and Do (see www.ctbi.org.uk/goanddo)

Wrap up warm, pack a flask and organize a nature walk with the churches in your area. Take it as time to journey together and to reconnect with the natural world of which we are all a part. You could go to a park if you are in the city, or step outdoors if you are in the countryside.

Pray for another way for the world and that we as humanity might work with creation rather than against it. Visit Go and Do to take action in the next stage of the climate justice campaign.

# DIWRNOD 7

## 1 Samuel 1:13-17
## Mathew 15:21-28

### Man Cychwyn

Mae bychanu ac anwybyddu lleisiau merched yn parhau yn ein dyddiau ninnau ac yn ein diwylliant. O fewn ein heglwysi rydym yn aml yn anwybyddu agweddau a gweithredoedd sydd yn dibrisio merched. Wrth i ni ddod yn fwy ymwybodol o'r materion hynny, fe ddechreuwn sylwi ar yr amryfal ffyrdd yr amlygir trais ac anghyfiawnder yn erbyn merched. Mae masnachu pobl, ecsploetio gwragedd a phlant a cham-drin rhywiol yn parhau i fod yn rhan o realiti bywyd llawer o ferched. Yn y darlleniadau o'r Ysgrythur, mae Hannah a'r Gananëes ill dwy yn cael eu hanwybyddu fel niwsans di-werth. Ond maent yn herio hynny, yn newid agweddau Eli a Iesu, ac yn sicrhau eu dyheadau dyfnaf. Mae llawer o ferched yn methu herio esgeulustod ac ecsploetio. Wrth i Gristnogion uno i weddïo ac i astudio'r Ysgrythur, gan wir wrando am lais Duw, byddwn yn darganfod bod Duw yn llefaru heddiw hefyd drwy lefain y rhai sy'n dioddef y gamdriniaeth eithaf yn ein cymdeithas.

### Myfyrdod

*Hannah*
Wylo'n dawel,
gweddïo o'r galon gerbron
yr Arglwydd,
pam mae Eli'n meddwl ei bod
yn feddw?
Tawel, urddasol, yn herio
ei chyhuddwr,
addewir iddi ddymuniad ei chalon.

*Y Gananëes*
Dienw,
tanbaid a doeth er mwyn ei merch,
yn troi'r sarhad o'i phlaid,
a throi gwrthodiad yn glod sy'n
adleisio drwy'r canrifoedd.
Mawr yw dy ffydd ddi-ildio!

*Y wraig 'ddi-werth'*
Wedi ei bychanu, ei diystyru,
yn anweledig,
pam wnewch chi ddim gwrando ar
fy stori?
Pam wnewch chi ddim credu beth
maen nhw'n ei wneud i mi?
Troi yn ei gwendid,
herio, #MeToo,
tsunami o dystiolaeth, sefyll mewn
nerth ynghyd,
symud mynyddoedd o'u lle.
Nid oes dim yn amhosibl gyda Duw.

# Wraig, mawr yw dy ffydd! (Mathew 15:28)

## Gweddi

Dduw graslon,
ti yw ffynhonell urddas y ddynoliaeth.
Trwy dy ras a'th rym
bu i eiriau Hannah, o ganol
ei dagrau,
herio a thrawsnewid calon Eli'r
Offeiriad.
Trwy dy ras a'th rym
ysbrydolwyd y Gananëes i ymwrthod
â gwrthodiad
ac i symbylu Iesu i iacháu ei merch.
Wrth i ni ymdrechu i greu Eglwys
sy'n uno'r holl ddynoliaeth,
rho i ni'r dewrder i ymwrthod â phob
math ar drais yn erbyn merched
ac i ymhyfrydu yn y doniau
y mae merched yn eu cyfrannu
i'r Eglwys.
Hyn a weddïwn drwy Iesu Grist
ein Harglwydd,
yn yr hwn y mae pawb yn canfod eu
gwir werth a'u galwedigaeth. Amen.



## Cwestiynau

- Sut fyddech chi'n disgrifio rhywun sydd â ffydd gadarn? Meddyliwch am rywun rydych yn ei (h)adnabod.
- A allwch chi gofio adeg pan oeddech chi'n teimlo wedi eich diystyru neu'ch anwybyddu?
- Beth allwn ni ei wneud i rymuso merched, plant neu bobl eraill sy'n cael eu diystyru yn ein cymuned ninnau?

## Ewch a Gwnewch (www.ctbi.org.uk/goanddo)

Ewch i wefan Ewch a Gwnewch i weld sut mae mudiad ffydd *Side by Side* yn gwneud gwahaniaeth mawr ym maes cyfiawnder rhwng y rhywiau ledled y byd.

Trefnwch ddigwyddiad lleol gyda'r eglwysi yn eich ardal i nodi a dathlu Diwrnod Rhyngwladol y Merched ar ddydd Gwener 8 Mawrth. Ewch i wefan Ewch a Gwnewch i ganfod adnoddau a syniadau.

Gwisgwch ddu bod dydd Iau i gydsefyll â phawb ledled y byd sy'n gweithio'n eiddgar tuag at adeg pan ddaw trais yn erbyn merched i ben. Fe gewch fwy o wybodaeth yng ngwefan Ewch a Gwnewch.

# DAY 7

# 1 Samuel 1:13-17
# Matthew 15:21-28

## Starting Point

The marginalization and dismissal of women's voices continues in our own times and in our own culture. Within our own churches we are often complicit with attitudes and actions that devalue women. As we become more aware of the issues, so we begin to recognize the many ways in which women are subjected to violence and injustice. Human trafficking, exploitation of women and children, and sexual abuse continue to be the reality for many women. In the scripture readings both Hannah and the Canaanite woman are dismissed as 'worthless' nuisances. But they stand up for themselves, change the perceptions of Eli and Jesus, and achieve their deepest desire. Many women are unable to challenge marginalization and exploitation. As Christians unite in prayer and the study of the Scriptures, truly listening for God's voice, we discover that God also speaks today through the cries of the most abused in society.

## Reflection

*Hannah*

Weeping silently,
praying from the heart before
the Lord,
why does Eli think she is drunk?
Quiet, dignified, refuting her accuser,
she is promised her heart's desire.

*The Canaanite woman*

Nameless,
fierce and canny on behalf of
her daughter,
turning insult to advantage,
rejection to praise resounding
throughout centuries.
Great is your persistent faith!

*The 'worthless' woman*

Belittled, discounted, invisible,
why won't you hear my story?
Why won't you believe what they are
doing to me?
Desperate worm turning,
speaking out, #MeToo,
a tsunami of testimony, standing
strong together,
mountains pushed aside.
Nothing is impossible with God.

# Woman, great is your faith! (Matthew 15:28)

## Prayer

Gracious God,
you are the source of human dignity.
By your grace and power
the words of Hannah, from the midst of her tears,
challenged and turned the heart of Eli the Priest.
By your grace and power
the Canaanite woman was emboldened to reject rejection
and move Jesus to heal her daughter.
As we strive for a Church which unites all humanity,
grant us the courage to reject all forms of violence against women
and to celebrate the gifts
that women bring to the Church.
This we pray through Jesus Christ our Lord,
in whom all may find their true worth and calling. Amen.



## Questions

- How would you describe a person of great faith? Think of someone you know.
- Can you remember a time when you felt marginalized or dismissed?
- What can we do to empower women, children and other marginalized people in our community?

## Go and Do (see www.ctbi.org.uk/goanddo)

Visit Go and Do to find out how the Side by Side faith movement for gender justice is making great progress across the world.

Organize a local event with the churches in your area to mark and celebrate International Women's Day on Friday 8th March. Visit Go and Do for resources and ideas.

Wear black each Thursday in solidarity with all across the world who are working and longing for the day when there is an end to violence against women. Find out more at Go and Do.

# DIWRNOD 8



## Salm 27:1-4

## Ioan 8:12-20

### Man Cychwyn

Dros yr wyth niwrnod diwethaf mae eglwysi Indonesia wedi bod yn ein cynorthwyo i ystyried sefyllfaoedd anodd sy'n wynebu'r byd. Mae llawer o'r sefyllfaoedd hynny wedi codi cwestiynau ynghylch cyfiawnder. Bu'r Eglwys yn euog o anwybyddu anghyfiawnder droeon a, thrwy hynny, rydym wedi niweidio'n hundod ac wedi amharu ar effeithiolrwydd ein tystiolaeth i'r byd. Mae Cristnogion yn ymgynnull i weddïo ar y cyd, gan broffesu ffydd gyffredin, ac i wrando am lais Duw. Er bod yr anghyfiawnderau lawer yn ein niweidio, nid ydym yn anobeithio, ac fe'n gelwir i weithredu. Yr Arglwydd yw ein goleuni a'n gwaredigaeth, cadarnle'n bywydau. Nid ofnwn.

### Myfyrdod

*Gobaith*

Maddau i ni am dy ddibrisio:
'Dan ni'n byw mewn gobaith' ac eto
    dan ni ddim yn byw gobaith;
'Gobeithio te', heb ddim gobaith yn
    ein calonnau.

Dangos i ni pwy wyt ti o ddifrif:
aflonydda ar hawddfyd marwol
    ein hanobaith
a rho i ni'r dewrder i gofleidio dy
    boen dithau:
yn haerllug yn herio casineb,
yn ddi-ildio dan ormes,
yn meiddio gwrthod entropi
    ein rhaniadau.

Symbyla ni i godi croes y troseddwr,
gan i'w hing
wagio'r bedd.

## Gweddi

Dduw ein gobaith,
molwn di am dy gariad gofalgar.
Cynnal ni pan fyddwn ar fin anobeithio,
dangos i ni dy oleuni pan fo popeth o'n cwmpas yn ymddangos yn dywyll.
Trawsffurfia ein bywydau fel y gallwn ddod â gobaith i eraill.
Cynorthwya ni i fyw yn unedig yn ein hamrywiaeth fel tystion i'th gymundeb,
Dad, Mab ac Ysbryd Glân,
un Duw yn awr a hyd byth bythoedd. Amen



## Cwestiynau

- Sut mae Iesu wedi eich grymuso i dystio i'r hyn sy'n iawn?
- Ble ym mywyd eich eglwys neu grŵp o eglwysi mae angen rhodd gobaith fwyaf arnoch?
- Beth yw eich gobaith gorau ar gyfer eich cymuned?

## Ewch a Gwnewch (www.ctbi.org.uk/goanddo)

Gallwch hybu gobaith drwy rannu eich gweithredoedd a'ch gweddïau dros gyfiawnder ar wal weddi Eglwysi Ynghyd ym Mhrydain ac Iwerddon gan ddefnyddio'r hashnod #wpcuwall wrth drydar. Gallwch hefyd ymweld â www.weekofprayer.org i weld pa gamau mae eraill wedi'u cymryd.

Bydd pecynnau trefnwyr Wythnos Cymorth Cristnogol 2019 yn cyrraedd cartrefi ledled y Deyrnas Unedig ac Iwerddon yr wythnos hon. Dechreuwch gynllunio i gyfrannu at yr wythnos arall honno pan fydd Cristnogion yn cydweithio'n unol ar hyd a lled y Deyrnas Unedig ac Iwerddon. Ewch i wefan Ewch a Gwnewch i ganfod mwy o wybodaeth.

# DAY 8



## Psalm 27:1-4

## John 8:12-20

### Starting Point

Over the past eight days the churches of Indonesia have helped us consider difficult situations facing the world. Many of these have raised questions of justice. The Church has been complicit in many instances of injustice and, through that complicity, we have damaged our unity and diminished the effectiveness of our witness to the world. Christians gather for common prayer, professing common faith and to listen for God's voice. Although the many injustices wound us, we do not lose hope, but are called to action. The Lord is our light and salvation, the stronghold of our lives. We do not fear.

### Reflection

*Hope*
Forgive us how we've devalued you:
'We live in hope' and yet don't hope
    to live,
'Hope so', when we have none in
    our hearts.

Show us who you really are:
disturb the deathly ease of
    our despair
and give us the courage to embrace
    your pain:
impudent in the face of hate,
unrelenting under oppression,
daring to resist the entropy
    of division.

Goad us to take up that felon's cross
whose agony
laid empty the grave.



## Prayer

God our hope,
we praise you for your
loving kindness.
Uphold us when we are about to
give up,
show us your light when all around
seems dark.
Transform our lives that we may
bring hope to others.
Help us to live united in our diversity
as a witness to your communion,
Father, Son and Holy Spirit,
one God now and forever. Amen.

## Questions

- How has Jesus empowered you to witness to what is right?
- Where in the life of your church or group of churches do you most need the gift of hope?
- What is your best hope for your community?

## Go and Do (see www.ctbi.org.uk/goanddo)

Generate hope by sharing your actions and prayers for justice on the CTBI prayer wall using the #wpcuwall hashtag on Twitter and visit www.weekofprayer.org to see the actions others have taken.

The Christian Aid Week 2019 packs for organizers will be landing on doormats across the UK and Ireland this week. Plan to get involved in this other week of the year that witnesses Christian unity across the UK and Ireland. Visit Go and Do to find out more.

# Yr Wythnos Weddi am Undeb Cristnogol 2019



**Copïau ychwanegol oddi wrth:**
Norwich Books and Music
Archebion: 01603 785925
Ffacs: 01603 785915
orders@norwichbooksandmusic.co.uk
https://chbookshop.hymnsam.co.uk/

**Further copies available from**
Norwich Books and Music
Order line: 01603 785925
Fax: 01603 785915
orders@norwichbooksandmusic.co.uk
https://chbookshop.hymnsam.co.uk/

www.ctbi.org.uk/weekofprayer
www.weekofprayer.org

Twitter: #wpcu2019
#wpcuwall

**ISBN: 978-0-85169-410-8**

**Cyhoeddwyd gan**
**Eglwysi Ynghyd ym Mhrydain ac Iwerddon**
Interchurch House
35 Lower Marsh
Llundain SE1 7RL
info@ctbi.org.uk,
Ffôn: 0203 794 2288

Elusen gofrestredig rhif 1113299.
Cwmni cyfyngedig trwy warant,
rhif cofrestru 5661787.

**Published by**
**Churches Together in Britain and Ireland**
Interchurch House
35 Lower Marsh
London SE1 7RL
info@ctbi.org.uk,
Tel: 0203 794 2288

Registered charity no. 1113299.
Company limited by guarantee,
registered no. 5661787

churches together
IN BRITAIN AND IRELAND